



Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol

Crynodeb Gweithredol

1. Cefndir

- 1.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithriad rhag atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Money Saving Expert yn 2017, nid yw cymhwysiad y disgownt yn gyson ac awgrymwyd cyflwyno ffurflen gais a gweithdrefnau ymgeisio safonol i'w mabwysiadu gan bob cyngor. Yn 2019, ymatebodd Llywodraeth flaenorol Cymru i'r adroddiad a chyflwyno'r argymhellion ledled Cymru.
- 1.2 Mae'r ymchwil a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys ymchwil desg, ystadegau meintiol, gwaith dadansoddi data, a gwaith maes. Mae'r fethodoleg ar gyfer bob un o'r elfennau hyn wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

2. Prif ganfyddiadau

- 2.1 Mae ymwybyddiaeth ymhlith cynghorau, a sefydliadau trydydd parti sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, o safoni'r ymyriad eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Caiff yr ymyriad hwn ei groesawu gan gynghorau a sefydliadau sy'n cefnogi preswylwyr sydd â Nam Meddyliol Difrifol.
- 2.2 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau a gymerodd ran yn yr arolwg fel rhan o'r ymchwil hwn yn teimlo bod cyflwyno dull gweithredu safonol ar gyfer eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi bod yn effeithiol. Wedi dweud hynny, mae lefel y mesurau gweithredu sydd wedi'u cyflwyno gan gynghorau yn amrywio. Dywedodd y rhan fwyaf o gynghorau eu bod yn defnyddio'r ffurflen gais safonol, ond nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw fesurau ychwanegol, megis cyhoeddusrwydd, hyfforddiant neu hygrychedd gwefan, wedi'u cyflwyno o ganlyniad i ymyriad yn eu cyngor.

- 2.3 Er y nodir mai cyflwyno'r ffurflen gais safonol yw'r prif fesur a gyflwynwyd, drwy werthuso gwefannau canfuwyd mai dim ond hanner o wefannau cynghorau Cymru sydd â'r ffurflen safonol, a bod gan lai na hanner o wefannau cynghorau Cymru lwybrau a diffiniadau eglur mewn perthynas â'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.
- 2.4 Er bod amrywiaeth rhwng cynghorau o ran gweithredu'r mesurau ymyrryd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ledled Cymru ers safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol yn 2019. Mae'r cynnydd hwn yn amlwg ym mhob cyngor.
- 2.5 Cyn 2019, roedd y boblogaeth a all fod yn gymwys am eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol (fel yr awgrymir gan ystadegau cyhoeddus ar fudd-daliadau a chyflyrau anabled cysylltiedig) yn cynyddu'n fwy cyflym na nifer yr eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a ddyfarnwyd ledled Cymru. O 2018-2019 i 2022-2023, trodd y tuedd hwn i'r gwrthwyneb gydag eithriadau yn codi ar gyfradd fwy cyflym na'r boblogaeth a all fod yn gymwys. Ers 2019, mae'r eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi cynyddu 29 y cant mewn cymhariaeth â'r boblogaeth fynegol a all fod yn gymwys, a gynyddodd 12 y cant.
- 2.6 Mae cymhwysiad yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn weddol gyson ar draws cynghorau Cymru mewn perthynas â phoblogaeth a all fod yn gymwys y cyngor hwnnw. Nid oes yr un cyngor yn cymhwyso nifer eithriadau sy'n sylweddol is na'r disgwyl.
- 2.7 Ymddengys nad yw lefel dyfarnu eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys, yn gysylltiedig â pha mor rhwydd yw ceisio gwybodaeth ar wefan cyngor. Roedd rhai cynghorau, a oedd yn dangos gweithrediad isel drwy eu gwefan, yn darparu nifer uwch na'r disgwyl o eithriadau, ac i'r gwrthwyneb i hynny, roedd rhai cynghorau yr oedd eu gwefannau yn dangos lefelau uchel o weithredu'r mesur yn darparu nifer is o'r eithriadau na'r disgwyl.

3. Casgliad

- 3.1 Mae'r effaith ar breswylwyr yn sgil eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn debygol o fod yn sylweddol, yn ariannol a thrwy eu hamddiffyn rhag baich gweinyddol a chamau gweithredu ôl-ddyledion. Mae cyflwyno dull safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi'i groesawu gan gynghorau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.
- 3.2 Mae cyflwyno dull safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol wedi cael effaith gadarnhaol ledled Cymru, gyda nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn cynyddu 29% ers ei chyflwyno. O ystyried bod y lefel cydymffurfio â'r safoni yn amrywio ymhlith cynghorau, mae'n bosib bod y cynnydd hwn yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth o'r mesur ymhlith cynghorau a phreswylwyr a hynny oherwydd y cyhoedduswydd a grëwyd pan gafodd ei gyflwyno.

- 3.3 Ymddengys bod cysondeb rhesymol yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol mewn cymhariaeth â'r boblogaeth a all fod yn gymwys ledled cynghorau Cymru. Ochr yn ochr â'r cysondeb hwn o ran cymhwyso'r eithriad, mae diffyg cysondeb ar wefannau cynghorau Cymru, o ran defnydd y ffurflen gais safonol ar gyfer yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol a darpariaeth gwybodaeth ynghylch yr eithriad. Mae tystiolaeth o duedd tuag at lefelau safoni uwch, ond efallai nad yw hyn wedi'i weithredu'n llawn.
- 3.4 Gall yr ymyrraeth i'r gweithredu fod oherwydd ymyrraeth i fusnes o ganlyniad i COVID-19 yn 2020. Serch hynny, roedd y cynghorau a gyfrannodd at yr arolwg ar gyfer yr ymchwil hwn yn teimlo bod COVID-19 wedi cael effaith fechan iawn ar weithredu. Ar gyfer y cynghorau hynny nad ydynt eisoes wedi cyflwyno'r ffurflen safoni, gall arfer dda cynghorau eraill a adnabuwyd drwy'r ymchwil hwn gyflwyno enghreifftiau defnyddiol.
- 3.5 Adnabuwyd nifer o rwystrau i weithredu'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol. Caiff hygyrchedd gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ei rwystro gan gynghorau yn defnyddio terminoleg wahanol yn eu llwybrau mynediad. Byddai dull cyffredin o ddefnyddio terminoleg, yn enwedig o ran gostyngiadau, disgowntiau ac eithriadau, yn ei gwneud hi'n haws i ddinasyddion Cymru geisio gwybodaeth. Roedd cynghorau a sefydliadau trydydd parti yn teimlo bod yr angen am ardystiad meddygol a'r derminoleg "Nam Meddyliol Difrifol" yn cyflwyno rhwystrau rhag gweithredu.

4. Argymhellion

- 4.1 Dylid monitro eithriadau Nam Meddyliol Difrifol ar draws cynghorau yn barhaus i sicrhau nad yw'r cynnydd yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ers 2019 yn adlewyrchu ysgogiad ymyriad Llywodraeth Cymru.
- 4.2 Dylai cynghorau ystyried sicrhau bod ymgysylltiad priodol ar waith gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ac sy'n ymgymryd ag asesiadau meddygol, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o'r eithriad Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol.
- 4.3 Dylai bod ffurflen yr eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol yn hygyrch ar wefannau holl gynghorau Cymru. Efallai y dymuna cynghorau gynnwys ar eu gwefannau diffiniad eglur o Nam Meddyliol Difrifol ac eglurhad sydd ar gael yn rhwydd o'r eithriad. Gallai cynghorau nad ydynt eto wedi cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â safoni dull ymgeisio am eithriad ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol ar eu gwefannau ddysgu o'r enghreifftiau o arfer dda a geir yn yr adroddiad hwn.
- 4.4 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio gyda chynghorau Cymru i adnabod ar wahân disgowntiau Treth Gyngor ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol nad ydynt yn arwain at eithriad lawn y Dreth Gyngor, er mwyn mesur cymhwysiad ymyriadau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Byddai hyn yn galluogi gwaith monitro gwell o nifer yr eithriadau a roddir.
- 4.5 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu diffiniad Nam Meddyliol Difrifol ac addasu'r derminoleg, fel nad ydyw'n creu stigma o ymgeiswyr posib.

- 4.6 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu gofynion tystiolaethol ar gyfer Nam Meddyliol Difrifol i sicrhau nad ydynt yn digalonni pobl rhag ymgeisio, a chynnig arweiniad. Er mwyn cymhwyso eithriadau ar gyfer pobl sydd â Nam Meddyliol Difrifol, rhaid i breswylwyr fod yn gymwys am fudd-daliadau anabledd. Gallai fod angen canllawiau ar gynghorau os yw preswylir a all fod yn gymwys am fudd-daliadau anabledd perthnasol ond wedi dewis peidio ag ymgeisio am y budd-daliadau hynny. Pan mae ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau anabledd, caiff y cyflwr o anabledd ei nodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Efallai fod gwerth archwilio a ellid defnyddio'r dyfarniad anabledd fel tystiolaeth o gyflwr perthnasol heb fod angen ardstiad meddygol pellach. Byddai hyn yn gofyn newid yn y ddeddfwriaeth.
- 4.7 Dylai Llywodraeth Cymru a chynghorau Cymru ystyried cyflwyno dull cyffredin o ran mynediad at wybodaeth ar wefan ynghylch gostyngiadau, eithriadau a disgowntiau'r Dreth Gyngor ar wefan. Byddai hyn yn atal preswylwyr rhag gorfod chwilio pob un o'r opsiynau hyn ar y wefan er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth fwyaf perthnasol.

Awduron: Zoe Charlesworth, Policy in Practice; Alex Clegg, Policy in Practice; Adam Knight-Markiegi, MEL Research.



Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. (2023) *Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Safoni'r eithriad Nam Meddyliol Difrifol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 29/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-effaith-ymyriadau-treth-gyngor-yng-nghymru-safonir-eithriad-nam-meddyliol-difrifol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.GwasanaethauCyhoeddus@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80535-593-9